

**Canllawiau statudol drafft ar gyfer cyrff
llywodraethu ysgolion ar bolisiau
gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion**

Canllawiau ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion ar bolisiau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion.

Cynulleidfa

Cyrff llywodraethu a phenaethiaid ysgolion a gynhelir yng Nghymru; awdurdodau lleol; undebau athrawon ac undebau eraill; awdurdodau esgobaethol; NACAB Cymru; sefydliadau cydraddoldeb ac anabledd a; chyrff lleol a chenedlaethol eraill sy'n ymwneud ag addysg yng Nghymru.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi arweiniad i gyrff llywodraethu a phenaethiaid ar faterion sy'n ymwneud â gweithredu neu newid polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion. Mae'n disodli'r canllaw anstatudol sydd wedi ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

Y camau y mae angen eu cymryd

Mae'n rhaid i gyrff llywodraethu a phenaethiaid roi ystyriaeth i'r canllawiau statudol hyn wrth weithredu neu newid polisiau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion.

Rhagor o wybodaeth

Yr Is-adran Cynllunio Busnes a Llywodraethiant Addysg -
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: schoolfundingmailbox@llyw.cymru

Cynnwys

Crynodeb	1
Adran 1: Cyflwyniad	2
Statws y canllawiau	2
Y ffordd mae'r ysgol yn cael ei rhedeg	3
Deddfwriaeth cydraddoldeb	4
Cynghorau ysgol ac ymgynghori â disgyblion	4
Adran 2: Materion yn ymwneud â chydraddoldeb i'w hystyried gan gyrrff llywodraethu ysgolion	5
Gwahaniaethu ar sail hil neu gred grefyddol	5
Gwahaniaethu ar sail anabledd	6
Gwahaniaethu ar sail rhyw a hunaniaeth ryweddol	6
Adran 3: Materion ymarferol i'w hystyried wrth ddatblygu, mabwysiadu, newid neu werthuso polisiau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion	7
Cost a fforddiadwyedd gwisg ysgol	7
Ystyriaethau eraill ynghylch gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion	9
Cotiau	9
Teithio rhwng y cartref a'r ysgol	9
Addysg gorfforol	9
Iechyd a diogelwch	9
Gemwaith	10
Materion meddygol	10
Tywydd garw	10
Adran 4: Gwybodaeth, ymgynghori a chwynion	11
Prosbectysau ysgolion	11
Ymgynghori â rhieni, disgyblion a grwpiau eraill	11
Cwynion	11
Peidio â chydymffurfio â pholisiau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion	14
Gwahardd a bod yn absennol	14
Adran 5: Cymorth ariannol	15
Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad	14
Cymorth grant awdurdodau lleol	14
Cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol fel rhieni corfforaethol	14
Math arall o gymorth ar gyfer teuluoedd sydd ar incwm isel	15
Undebau Credyd	15
Arferion da gan ysgolion	15

Crynodeb

Mae'r canllaw statudol hwn wedi ei anelu at gyrff llywodraethu ysgolion a phenaethiaid er mwyn eu cefnogi â'r gwaith o ddatblygu, mabwysiadu, adolygu a gwerthuso polisiau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion. Rhaid i ysgolion roi ystyriaeth i'r canllawiau hyn wrth ystyried eu polisiau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion. Mae'r canllawiau yn canolbwyntio ar y canlynol:

- rhoi sylw teilwng i sicrhau bod disgyblion yn cael eu trin yn gyfartal o ran rhyw a rhywedd; cefndiroedd ethnig a chrefyddol ac anabledd mewn perthynas â pholisiau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion;
- cost a fforddiadwyedd;
- ystyriaethau ymarferol sy'n gysylltiedig â chyflwyno polisiau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion a'u newid;
- ymgynghori â rhieni, disgyblion a'r gymuned.

Newidiadau i'r canllawiau blaenorol

- Wrth osod polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion, dylai cyrff llywodraethu ysgolion ystyried fforddiadwyedd ac argaeledd y wisg ysgol neu eitemau o'r wisg honno, gan sicrhau bod modd cael gafael ar y wisg ysgol neu'r eitemau hynny'n hawdd.
- Ni ddylai polisiau gwisg ysgol nodi bod rhaid gwisgo dillad gwahanol ar sail rhyw/rhywedd.
- Dylai cyrff llywodraethu ysgolion fod yn gall ac yn hyblyg wrth ymdrin ag eitemau gwisg ysgol er mwyn rhoi ystyriaeth i dywydd garw.

Mae'r canllawiau hefyd yn nodi'r sefyllfa bresennol yng Nghymru o ran rhoi cymorth ariannol i rieni tuag at y gost o brynu gwisg ysgol:

- Nid yw'r Grant Gwisg Ysgol Cymru Gyfan bellach ar gael fel grant o fis Ebrill 2018 ymlaen.
- Rhoddwyd y Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad, sef elfen newydd o'r Grant Datblygu Disgyblion, sy'n disodli'r grant gwisg ysgol, ar waith o fis Medi 2018 ymlaen.
- Gall hawlwr sy'n hawlio Credyd Cynhwysol ar hyn o bryd wneud cais am Flaenswm Cyllidebu.

Adran 1: Cyflwyniad

1.1 Mae Llywodraeth Cymru yn pwysu ar bob corff llywodraethu i gael polisi gwisg ysgol ar ôl ymgynghori â rhieni, disgyblion a chymunedau lleol neu gymunedau ffydd perthnasol. O'i ddatblygu'n iawn a'i weithredu'n briodol, gall gwisg ysgol:

- greu ymdeimlad o hunaniaeth a chydlyniant yn yr ysgol;
- cefnogi ymddygiad positif a disgyblaeth yn yr ysgol;
- sicrhau bod disgyblion yn gwisgo'n briodol ar gyfer gweithgareddau dysgu;
- chwalu'r pwysau ymhlith cyfoedion i wisgo dillad o ffasiwn benodol;
- sicrhau bod disgyblion o bob cefndir yn rhannu'r un hunaniaeth sy'n cynnwys eu gofynion penodol;
- helpu i leihau'r anghydraddoldeb rhwng disgyblion a rhai ffactorau sy'n arwain at fwlio;
- bod o fudd o ran polisiâu diogelu a phresenoldeb drwy helpu i ddod o hyd i driwantiad;
- helpu i ganfod dieithriaid ar safle'r ysgol; ac
- cefnogi a hyrwyddo ethos yr ysgol.

Statws y canllawiau

1.2 Mae'r canllawiau hyn yn statudol ac felly bydd rhaid i benaethiaid a chyrrff llywodraethu roi ystyriaeth iddynt wrth lunio ac adolygu eu polisiâu gwisg ysgol.

Mae'r canllawiau anstatudol blaenorol, sef "*Canllawiau ar gyfer Cyrff Llywodraethu ar Bolisiâu Gwisg Ysgol ac Edrychiad Disgyblion*" a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2011 (Cylchlythyr 006/2008) wedi ei ddirymu.

Cyd-destun cyfreithiol

1.3 Nid oes deddfwriaeth addysg yn ymwneud yn benodol â gwisgo gwisg ysgol nac agweddau eraill ar edrychiad unigolion megis lliw a steil gwallt, gwisgo gemwaith a cholur. Fodd bynnag, fel rhan o'i gyfrifoldeb yn cynnal yr ysgol, gall corff llywodraethu bennu gwisg ysgol y bydd yn ofynnol i ddisgyblion ei gwisgo a rheolau eraill yn ymwneud â'u hedrychiad. Mae pwerau Gweinidogion Cymru i lunio canllawiau statudol yn y maes hwn i'w gweld mewn nifer o ddarpariaethau statudol.

Mae pwerau Gweinidogion Cymru i lunio canllawiau statudol a'u rhoi i gyrrff llywodraethu i'w gweld yn adran 88 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 ("Deddf 2006"). Er nad yw'r adran hon yn sôn am wisg ysgol yn benodol mae'n ddigon eang i'w chynnwys. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar gyrrff llywodraethu i roi ar waith yn yr ysgol bolisiâu y bwriedir iddynt hyrwyddo disgyblaeth ac ymddygiad da.

Yn ogystal â hynny, mae adran 89 o Ddeddf 2006 yn gosod dyletswydd ar bennaethiaid i bennu mesurau (gan gynnwys rheolau a darpariaethau i'w gorfodi) i'w gweithredu er mwyn hyrwyddo disgyblaeth ymhlith y disgyblion, annog y disgyblion i barchu awdurdod, annog y disgyblion i ymddwyn yn dda a pharchu eraill. Dylai unrhyw fesur a gyflwynir gan y pennaeth o dan adran 89 gael ei gyhoeddi ganddo ar ffurf dogfen ysgrifenedig. Dylai'r ddogfen ysgrifenedig fod yn hysbys i bawb yn yr ysgol ac i rieni. Mae hefyd yn ofynnol, unwaith ym mhob blwyddyn ysgol, i'r pennaeth gymryd camau i sicrhau ei fod yn cael ei ddwyn at sylw disgyblion, eu rhieni a phawb arall sy'n cael eu cyflogi i weithio yn yr ysgol neu y gwnaed trefniadau iddynt weithio yn yr ysgol.

Wrth lunio a gweithredu mesurau a wneir o dan adran 89 o Ddeddf 2006, dylai pennaeth gynnwys mesurau i atal pob ffurf ar fwlio. Dylai corff llywodraethu, felly, sicrhau na fydd llunio, newid neu weithredu polisi gwisg ysgol neu edrychiad disgyblion ynddo'i hun yn creu sefyllfa a fydd yn arwain at fwlio. Dylai'r ysgol ystyried Canllawiau Rhif 050/2011 Llywodraeth Cymru, sef Parchu Eraill: Canllawiau Gwrth-fwlio: Trosolwg gwrthfwlio:

<https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/parchu-eraill-trosolwg-gwrth-fwlio.pdf> a Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais

Rhywiol (Cymru) 2015:

https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/3/pdfs/anaw_20150003_mi.pdf

Hefyd, o dan adran 175 Deddf Addysg 2002 ("Deddf 2002") mae rhaid i gorff llywodraethu wneud trefniadau ar gyfer sicrhau bod eu swyddogaethau mewn perthynas â rhedeg yr ysgol yn cael eu harfer gyda golwg ar ddiogelu a hyrwyddo lles y disgyblion yn yr ysgol. Felly, pan fo corff llywodraethu yn ystyried cyflwyno polisi gwisg ysgol, dylai ystyried y ddyletswydd drosfwaol hon, sef gwneud hynny mewn ffordd sy'n diogelu ac yn hyrwyddo lles disgyblion. O dan yr adran hon, mae gan Weinidogion Cymru bŵer i roi canllawiau statudol i gyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol.

Y ffordd mae'r ysgol yn cael ei rhedeg

1.4 Mae adran 21 o Ddeddf 2002 yn gosod y cyfrifoldeb am y ffordd y mae ysgol a gynhelir yn cael ei rhedeg ar gorff llywodraethu'r ysgol. Mae'n ofynnol i gorff llywodraethu redeg ysgol gyda golwg ar hyrwyddo safonau uchel o ran cyflawniad addysgol. Nodwyd eisoes bod adran 175 Deddf Addysg 2002 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu redeg yr ysgol gyda golwg ar ddiogelu a hyrwyddo lles disgyblion yr ysgol.

1.5 Mae Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Cymru) 2000, a wnaed o dan adran 38 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, yn gosod dyletswydd ar gyrff llywodraethu a phenaethiaid i gyflawni eu cyfrifoldebau er mwyn:

- a) cael gwared ar wahaniaethu anghyfreithlon ar sail hil, rhyw a rhywedd; a
- b) hyrwyddo cyfle cyfartal a pherthynas dda rhwng pobl o wahanol grwpiau hiliol a rhwng y rhywiau/grwpiau rhywedd.

Deddfwriaeth cydraddoldeb

1.6 Mae nifer o ddarpariaethau statudol wedi eu cynnwys o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010:

https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/pdfs/ukpga_20100015_en.pdf

Gallai'r darpariaethau hynny effeithio ar bolisiau gwsg ysgol ac edrychiad disgyblion a bydd angen i gyrff llywodraethu a phenaethiaid roi sylw iddynt er mwyn peidio â gwahaniaethu'n anghyfreithlon ar sail rhyw, hil, crefydd neu gred ac anabled.

1.7 Mae'r dyletswyddau a osodir ar gyrff llywodraethu oherwydd y Rheoliadau hynny yn cynnwys asesu a monitro effaith eu polisiau, er enghraifft eu polisi gwsg ysgol, ar ddisgyblion, y staff a'r rhieni sy'n perthyn i wahanol grwpiau hil, gan gynnwys yr effaith ar lefelau cyrhaeddiad ar ddisgyblion hynny.

Cynghorau ysgol ac ymgynghori â disgyblion

1.8 Mae polisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc yn seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Yn y ddogfen '*Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau*', mae gan Lywodraeth Cymru saith nod sylfaenol a dywed fod gan bob person ifanc yng Nghymru yr hawl i gael ei gynnwys yn rhan o broses ymgynghori, i fod yn rhan o broses o wneud penderfyniadau, i gael gwrandawriad wrth iddynt leisio eu barn ar faterion sy'n ymwneud â hwy neu sy'n effeithio ar eu bywydau. <https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/cyp/151106-core-aims-comprehensive-version-cy.pdf>

1.9 Dylid ymgynghori â disgyblion, a dylent allu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n cael effaith arnynt. Er mwyn cefnogi disgyblion ac ysgolion, mae Llywodraeth Cymru wedi llunio Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005 sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol gynradd (ac eithrio ysgolion meithrin ac ysgolion babanod), ysgol uwchradd ac ysgol arbennig yng Nghymru sefydlu cyngor ysgol. Nodir yng Nghylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 42/2006, sef *Canllawiau i Gyrff Llywodraethu ar Sefydlu a Gweithredu Cynghorau Ysgol*, y gallai'r wisg ysgol fod yn un o'r materion y byddai cyngor ysgol o bosibl am ei drafod yn ei gyfarfodydd ar ôl ymgynghori â'r disgyblion yn yr ysgol.

<https://gov.wales/pubs/circulars/2006/english/nafwc42-06-e?lang=cy>

Adran 2: Materion yn ymwneud â chydraddoldeb i'w hystyried gan gyrff llywodraethu ysgolion

2.1 Wrth lunio polisiau gwsg ysgol ac edrychiad disgyblion, mae'n rhaid i gorff llywodraethu ysgol ystyried y rheidrwydd sydd arno i beidio â gwahaniaethu'n anghyfreithlon ar sail rhyw, hunaniaeth a mynegiant rhyweddol, hil, crefydd neu gred ac anabled.

2.2 Bydd cyrff llywodraethu yn rhoi blaenoriaeth uchel i ystyriaethau o ran costau a fforddiadwyedd. Ni ddylai unrhyw wisg ysgol fod mor ddrud y bydd disgyblion neu eu teuluoedd yn teimlo na allant wneud cais am fynediad i ysgol benodol neu na allant fynd i ysgol benodol.

2.3 Y pwynt hanfodol yw y bydd cyrff llywodraethu yn gweithredu yn deg ac yn rhesymol wrth ddewis neu adolygu eu polisiau gwsg ysgol ac edrychiad disgyblion gan sicrhau eu bod yn cyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a deddfwriaeth wrthwahaniaethol arall.

https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/42/pdfs/ukpga_19980042_en.pdf

Dylai cyrff llywodraethu hefyd gadw at egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (Erthyglau 12 a 13) fel y nodwyd isod (*dogfen Saesneg yn unig*):

Article 12

1. *Parties shall assure to the child who is capable of forming his or her own views, the right to express those views freely in all matters affecting the child, the views of the child being given due weight in accordance with the age and maturity of the child.*
2. *For this purpose, the child shall in particular be provided the opportunity to be heard in any judicial and administrative proceedings affecting the child, either directly, or through a representative or an appropriate body, in a manner consistent with the procedural rules of national law.*

Article 13

1. *The child shall have the right to freedom of expression; this right shall include freedom to seek, receive and impart information and ideas of all kinds, regardless of frontiers, either orally, in writing or in print, in the form of art, or through any other media of the child's choice.*
2. *The exercise of this right may be subject to certain restrictions, but these shall only be such as are provided by law and are necessary:*
 - a) *For respect of the rights of reputations or others; or*
 - b) *for the protection of national security or of public order, or of public health or morals.*

Gwahaniaethu ar sail hil neu gred grefyddol

2.4 Bydd cyrff llywodraethu ysgolion yn ystyried eu polisiau ynghylch gwisg ysgol disgyblion a'u hedrychiad yng nghyd-destun eu polisi cydraddoldeb hiliol; y rheidrwydd sydd arnynt i hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng disgyblion o wahanol grwpiau hil; a'r gofynion o ran asesu effaith polisiau'r ysgol ar ddisgyblion o wahanol grwpiau hil. Gellid ystyried bod corff llywodraethu yn gwahaniaethu pe na fyddai'n caniatáu ar gyfer anghenion crefyddol mewn perthynas â gwisg. Gallai hyn gael ei ystyried yn wahaniaethu hiliol anghyfreithlon o ran Deddf Cydraddoldeb 2010 (er enghraifft am fod carfan uchel o ddilynwyr ffydd benodol yn dod o un neu ragor o grwpiau hil lleiafrifol ac yn methu â chydymffurfio â gofynion penodol mewn perthynas â'r wisg ysgol), neu gallai gael ei ystyried yn achos o fynd yn groes i hawliau sy'n cael eu hamddiffyn o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

2.5 Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn diogelu'r hawl i 'amlygu ymlyniad wrth grefydd neu gred'. Mae'n bwysig felly, bod corff llywodraethu yn ystyried sut y gallai polisiau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion fynd yn groes i hawliau'r unigolyn i ddilyn yn rhesymol arfer cydnabyddedig yn eu crefydd neu eu cred. Bydd cyrff llywodraethu yn ymddwyn yn rhesymol o ran addasu i ofynion o'r fath a dylai ystyried unrhyw gais i amrywio'r polisi i ddiwallu anghenion disgyblion unigol er mwyn caniatáu am eu crefydd neu eu cred.

2.6 Efallai ei fod yn arfer crefyddol cydnabyddedig i ddisgybl wisgo dilledyn penodol. Wrth gydnabod hyn, gallai'r corff llywodraethu benderfynu y gall y disgybl wisgo'r dilledyn yn lliwiau'r wisg ysgol. Rhaid i gyrff llywodraethu weithredu o fewn y gofynion statudol perthnasol wrth wneud penderfyniadau.

Gwahaniaethu ar sail anabledd

2.7 Mae angen i gyrff llywodraethu sicrhau nad yw polisiau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion yn rhoi disgyblion anabl o dan anfantais o'u cymharu â disgyblion nad ydynt yn anabl. Mae materion i'w hystyried yn cynnwys ymarferoldeb polisiau a ph'un a ellid gwneud addasiadau rhesymol er mwyn bodloni gofynion disgyblion anabl.

Gwahaniaethu ar sail rhyw a hunaniaeth ryweddol

2.8 Bydd corff llywodraethu yn nodi'r hyn sy'n rhan o'r wisg ysgol gan sicrhau gwisg ysgol gynhwysol nad yw'n gwahaniaethu ar sail rhyw na hunaniaeth ryweddol.

2.9 Os oes unrhyw wahaniaethau yn y polisiau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion rhwng y rhywiau/rhyweddau, dylid eu cyfiawnhau'n wrthrychol gan roi rhesymau penodol a nodi hynny'n glir yn y polisi. Un sail dros gyfiawnhau hynny fyddai bod crefydd benodol yn pennu cod dillad a chod edrychiad gwahanol ar gyfer y ddau ryw. Gallai peidio â pharchu codau o'r fath olygu gwahaniaethu ar sail hil neu fynd yn groes i hawliau dynol. Er enghraifft, pan na fo gwahaniaethau o ran gwisg yn cael mwy o effeithiau andwyol ar un rhyw/rhywedd, mae'n annhebygol y byddent yn cael eu gweld fel gwahaniaethu, ond, er enghraifft, efallai y byddai'n anghyfreithlon pe bai gwisg ysgol y merched gymaint a hynny'n ddrutach na gwisg ysgol y bechgyn.

2.10 Mae angen i ysgolion ystyried a oes angen hyblygrwydd o ran gwisg ysgol i fodloni anghenion disgybl sy'n ailbennu rhywedd ar hyn o bryd.

Adran 3: Materion ymarferol i'w hystyried wrth ddatblygu, mabwysiadu, newid neu werthuso polisiau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion

Cost a fforddiadwyedd gwisg ysgol

3.1 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gall prynu gwisg ysgol ac eitemau eraill yn unol â pholisi gwisg ysgol fod yn faich ariannol yn arbennig i'r rheini o deuluoedd ar incwm isel a theuluoedd mawr. O ganlyniad, wrth gyflwyno gwisg ysgol newydd neu ystyried newid gofynion y wisg ysgol, bydd cyrff llywodraethu yn rhoi blaenoriaeth uchel i ystyriaethau'n ymwneud â chost a fforddiadwyedd. Ni ddylai unrhyw wisg ysgol fod mor ddud y bydd disgyblion neu eu teuluoedd yn teimlo na allant wneud cais am fynediad i ysgol benodol neu na allant fynd i ysgol benodol.

3.2 Dylai cyrff llywodraethu ystyried y canlynol wrth gadw cost gwisg ysgol i lawr:

- Pennu eitemau a lliwiau sylfaenol yn unig fel y gellir prynu eitemau mewn siopau manwerthu amrywiol am bris rhesymol ac nid gan un cyflenwr awdurdodedig yn unig.
- Osgoi eitemau uchel eu cost fel blaser a chapiau.
- Gall gofyn am logo'r ysgol ar grysau polo, siwmperi, blaser a chit ymarfer corff gan gyflenwyr arbenigol fod yn gostus. Dylai ysgolion ystyried a yw'n angenrheidiol cael eitemau o'r fath , gan gydbwyso'r dymuniad i gael hunaniaeth benodol ar y naill law â'r dymuniad ar y llaw arall i sicrhau bod eitemau gwisg ysgol yn hawdd cael gafael arnynt ac yn fforddiadwy. Os yw corff llywodraethu'n penderfynu bod rhaid cael logo ar wisg ysgol, dylai ysgolion gyfyngu ar eu nifer i un eitem (sy'n rhesymol o ran pris ac yn hawdd cael gafael arni) sy'n cael ei gwisgo'n aml, e.e. crys chwys neu gardigan.
- Os yw ysgol yn ei gwneud yn ofynnol bod logo'r ysgol ar ail ddilledyn (ee. siwmpwr neu drowsus) dylent ystyried darparu'r ail logo yn rhad ac am ddim fel bathodyn y gellir ei smwddio neu ei wnïo ar yr eitem
- Dylid ystyried y posibilrwydd o brynu logo i'w wnïo, ei smwddio neu ei lynu wrth ddilledyn er mwyn lleihau'r gost pan fo corff llywodraethu yn penderfynu bod logo yn rhan angenrheidiol o wisg ysgol.
- Dylid osgoi amrywio'r lliw a'r steil ar gyfer gwahanol grwpiau blwyddyn gan fod hyn yn ddud i rieni ac yn golygu nad oes yr un cyfle i werthu'r dillad yn ail-law neu eu rhoi i frodyr neu chwiorydd.
- Cael eitemau y mae modd eu golchi'n hawdd: dylid osgoi eitemau i'w glanhau'n sych yn unig.
- Dylid cyfyngu ar pa mor aml y caiff y wisg ysgol ei newid am y gall hyn fod yn gostus i rieni gan olygu nad oes yr un cyfle i'r dillad gael eu gwerthu'n ail-law na'u rhoi i frodyr a chwiorydd neu i ddisgyblion eraill.
- Ystyried cost meintiau gwahanol i'r meintiau arferol a hefyd a ydynt ar gael.

- Os yw'r polisi gwisg ysgol yn cael ei newid, cyflwyno cyfnod pontio fel y gall yr hen wisg ysgol gael ei gwisgo am o leiaf flwyddyn cyn newid yn llwyr i'r wisg ysgol newydd ac ystyried a allai eitemau o'r hen wisg ysgol gael eu cadw'n rhan o'r polisi newydd.
- Dylai cyrff llywodraethu ysgolion ystyried p'un a oes angen gwisgoedd ysgol gwahanol ar gyfer yr haf a'r gaeaf. Dylai gwisgoedd ysgol fod mor ddarbodus â phosibl a dim ond am fater o wythnosau yn unig y bydd wisg ysgol ar gyfer yr haf yn cael ei gwisgo. Er enghraifft, gall cyrff llywodraethu ystyried trywsus i'r bechgyn a'r merched yn y gaeaf neu yn ystod tywydd oer, trywsus byr i'r bechgyn a'r merched yn yr haf neu mewn tywydd poeth ac nad oes angen i ferched wisgo teits gwlanog mewn tywydd poeth.
- Efallai y bydd ysgolion uwchradd am ystyried gwisg ysgol yr ysgolion cynradd sy'n eu bwydo yn eu polisi gwisg ysgol er mwyn i'r disgyblion allu parhau i ddefnyddio unrhyw eitemau sylfaenol (ee crysau gwyn, crysau polo gwyn, trowsus du, sgertiau du a chyfarpar chwaraeon) yn yr ysgol uwchradd.
- Ystyried opsiynau eraill o ran cael gafael ar wisgoedd ysgol a'i fforddiadwyedd megis cynllun cyfnewid neu aildefnyddio gwisg ysgol, lle y gall rhieni ddweud bod eitemau nad oes eu hangen arnynt rhagor, neu ddillad sy'n rhy fach, sydd mewn cyflwr da, ar gael i deuluoedd eraill.

3.3 Mae Llywodraeth Cymru yn annog cyrff llywodraethu i ystyried pwysigrwydd gallu cael gafael yn hawdd ar ddillad gwisg ysgol oddi wrth amrywiaeth o gyflenwyr wrth ystyried eu trefniadau cyflenwi gwisg ysgol. Byddai cael amrywiaeth eang o gyflenwyr gwisg ysgol hefyd yn ateb problem hwylustod i rieni sy'n ei chael yn anodd dod o hyd i gyflenwyr gwisg ysgol mewn ardaloedd anghysbell.

3.4 Pan fo trefniadau yn eu lle ar gyfer un cyflenwr, dylai cyrff llywodraethu adolygu'r trefniadau hyn yn gyson yng nghyd-destun y canllawiau hyn a cheisio sicrhau bod yr eitemau'n fforddiadwy. Pan fo eitem gwisg ysgol ar gael o un siop, mae'n debygol y bydd prisiau'n uwch nag y byddent os byddai rhieni yn gallu eu prynu o ffynonellau eraill.

3.5 Pan fo ysgolion yn parhau gyda threfniant gydag un masnachwr, os oes elfen o gystadleuaeth am y farchnad ar ffurf tendr neu broses ddethol sy'n cael eu hadolygu yn gyson, mae'n debygol y bydd hyn yn gostwng prisiau yn y pen draw.

3.6 Dylai cyrff llywodraethu allu dangos eu bod wedi cael y gwerth gorau am arian gan gyflenwyr. Dylai unrhyw arbedion a negodwyd gyda'r cyflenwyr gael eu hadlewyrchu yn yr hyn a godir ar y rhieni pan fo hynny'n bosibl. Ni ddylai ysgolion gynnig trefniadau arian yn ôl. Dylid osgoi contractau un cyflenwr oni bai bod cystadlaethau tendro cyson yn digwydd lle y gall mwy nag un cyflenwr gystadlu am y contract.

Ystyriaethau eraill ynghylch gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion

Cotiau

3.7 Dylai cyrff llywodraethu fod yn fwy hyblyg yn eu gofynion ynghylch y cotiau i'w gwisgo rhwng y cartref a'r ysgol. Gallai pennu lliw neu steil penodol olygu y bydd yn rhaid i rieni brynu dwy got ar gyfer eu plentyn: un i'r ysgol ac un i'w gwisgo ar adegau eraill.

Teithio rhwng y cartref a'r ysgol

3.8 Dylai cyrff llywodraethu annog plant i gerdded neu seiclo i'r ysgol a dylent ystyried hyn wrth bennu cynllun a steil y wisg ysgol. Mae gwisg ysgol yn aml yn dywyll sy'n ei gwneud hi'n anodd i blant gael eu gweld gan yrwyr, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf. Dylai cyrff llywodraethu ystyried manteision cynnwys lliwiau golau a/neu ddefnyddiau adlewyrchol neu ddeunyddiau gwelededd uchel, megis sribedi adlewyrchol y gellir eu tynnu ymaith yn rhan o'u polisi gwisg ysgol er mwyn sicrhau y gall plant gerdded a seiclo'n ddiogel i'r ysgol.

Addysg gorfforol

3.9 Dylai'r holl ddisgyblion deimlo'n gyfforddus ynghylch eu dillad Addysg Gorfforol. Dylai ysgolion ddewis gwisg Addysg Gorfforol sy'n ymarferol, yn gyfforddus, yn briodol i'r gweithgareddau dan sylw ac yn fforddiadwy. Gall cyfranogiad disgyblion mewn gwersi Addysg Gorfforol, yn arbennig cyfranogiad merched, gael ei effeithio'n andwyol gan y dillad mae'n ofynnol iddynt eu gwisgo. Dylai cyrff llywodraethu fod yn sensitif ac yn hyblyg gan roi ystyriaeth i faterion yn ymwneud â chhydraddoldeb sydd wedi'u hamlinellu yn y canllawiau hyn. Rhaid i ysgolion ystyried hefyd gost dillad Addysg Gorfforol, yn arbennig lle bo angen cyfarpar arbenigol hefyd.

3.10 Dylai esgidiau Addysg Gorfforol fod yn addas h.y. treinyrs at ddibenion iechyd a diogelwch. Dylai cyrff llywodraethu ystyried a ddylid caniatáu i unrhyw blentyn nad yw'n gwisgo'r esgidiau cywir gymryd rhan mewn gwersi Addysg Gorfforol os yw'n peri risg i ddiogelwch. Yn yr achosion hyn, dylai cyrff llywodraethu ystyried os gallai'r disgyblion hyn barhau i gymryd rhan mewn ffordd arall, er enghraifft, drwy weinyddu, cadw sgôr etc. gan atgoffa y dylid gwisgo dillad priodol i gymryd rhan mewn gwersi addysg gorfforol yn y dyfodol.

Iechyd a diogelwch

3.11 Mae materion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch yn hynod bwysig, yn enwedig pan fo disgyblion yn cymryd rhan mewn gwersi Addysg Gorfforol a gwyddoniaeth. Wrth lunio neu addasu polisiau gwisg ysgol neu edrychiad disgyblion mae'n bosibl y bydd yn rhaid i gyrff llywodraethu gydbwyso dyheadau a hawliau disgyblion unigol yn erbyn y gofynion iechyd a diogelwch neu warchodaeth. Er enghraifft, mae gan gyrff llywodraethu yr hawl i ddisgwyl i ddisgyblion â gwallt hir neu sgarffiau pen eu clymu yn ôl er diogelwch wrth wneud Ymarfer Corff ac wrth weithio

mewn labordai gwyddoniaeth neu weithdai technoleg, pan fo hynny'n risg i ddisgyblion eraill a'r hyn sydd o gwmpas.

Gemwaith

3.12 Mae'n bosibl y bydd cyrff llywodraethu am ystyried gwisgo gemwaith yn rhan o'r polisiâu gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion a phennu eitemau o emwaith y caniateir i ddisgyblion eu gwisgo. Wrth wneud hynny, dylai ystyried a allai'r polisi amharu ar hawl yr unigolyn i ddilyn yn rhesymol arfer cydnabyddedig sy'n rhan o'i grefydd neu ei gred ac a allai'r polisi arwain at wahaniaethu. Mae yna hefyd faterion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch i'w hystyried. Gall fod yn rhesymol i gorff llywodraethu wahardd disgyblion rhag gwisgo gemwaith lle ystyria y bydd hyn yn arwain at risg o gael anaf (e.e. mewn gwersi Ymarfer Corff lle dylid gofyn i ddisgyblion dynnu eu clustdylsau neu eu gorchuddio a thâp).

Materion meddygol

3.13 Bydd angen i gyrff llywodraethu ystyried yn ofalus geisiadau i amrywio'r polisiâu er mwyn diwallu anghenion disgybl â chyflwr meddygol neu nam dros dro neu barhaol. Er enghraifft, mae'n bosibl na fydd disgyblion sydd â rhai cyflyrau arbennig ar y croen yn gallu gwisgo rhai ffabrigau ac na fydd disgyblion ag anafiadau i'w troed neu eu coes yn gallu gwisgo esgidiau ysgol. Efallai y bydd disgybl â nam penodol yn ystyried bod rhai eitemau penodol o'r wisg ysgol yn eu cyfyngu.

Amodau tywydd gwael

3.14 O ran fforddiadwyedd ac ymarferoldeb, rhaid i gyrff llywodraethu weithredu mewn ffordd syml a hyblyg mewn perthynas â gwisg ysgol sylfaenol yn ystod cyfnodau o dywydd poeth neu dywydd oer iawn, fel llacio'r polisiâu dros dro er mwyn sicrhau bod disgyblion yn gyfforddus yn eu hamgylchedd dysgu. Er enghraifft, caniatáu i ddisgyblion wisgo eu dillad ymarfer corff neu drowsus byr gwisg ysgol mewn tywydd poeth iawn.

3.15 Dylai cyrff llywodraethu ysgolion fod yn eglur mewn perthynas â'u hyblygrwydd o ran eitemau gwisg ysgol mewn achosion o dywydd eithafol wrth osod eu polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion.

Adran 4: Gwybodaeth, ymgynghori a chwynion

Prosbectysau ysgolion

4.1 Dylai'r gofynion ynghylch gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion gael eu cynnwys ym mhrosbectws yr ysgol. Dylai prosbectws yr ysgol gael ei ddiweddarau bob blwyddyn gan sicrhau ei fod ar gael i rieni pob plentyn sydd eisoes ar gofrestr yr ysgol a hefyd ddarpar ddisgyblion os ceir cais amdano. Gallai'r polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion ymddangos hefyd ar wefan ysgolion a gellir eu rhannu â rhieni ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn electronig. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y rhieni oll yn ymwybodol o bolisïau'r ysgol ar wisg ysgol ac edrychiad disgyblion cyn iddynt benderfynu anfon eu plentyn i'r ysgol.

Ymgynghori â rhieni, disgyblion a grwpiau eraill

4.2 Wrth ystyried cyflwyno polisïau newydd ar wisg ysgol ac edrychiad disgyblion neu newid y polisïau presennol, dylai cyrff llywodraethu ymgynghori â disgyblion a rhieni/gofalwyr presennol yn ogystal â darpar ddisgyblion a rhieni/gofalwyr, yn enwedig o ystyried y gallai ei newid olygu costau ychwanegol. Dylai'r broses ymgynghori gynnwys hefyd gynrychiolwyr o wahanol grwpiau o ddisgyblion yn y gymuned ehangach, gan sicrhau bod arweinwyr cymunedol sy'n cynrychioli grwpiau lleiafrifoedd ethnig a chrefyddol yn eu plith yn ogystal â grwpiau sy'n cynrychioli disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, anabledau neu materion sy'n ymwneud â hunaniaeth/mynegiant ryweddol. Gall cyrff llywodraethu gynnwys disgyblion a chynghor yr ysgol yn y broses o ddatblygu polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion drwy eu hannog i ysgwyddo cyfrifoldeb am y mater a chysylltu wedi hynny â rhieni, darpar rieni a disgyblion.

4.3 Dylai cyrff llywodraethu gofnodi'r camau a gymerwyd yn rhan o'r broses ymgynghori, y pwyntiau a wnaed gan y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad, a'r penderfyniadau a wnaed wrth bwysu a mesur y safbwyntiau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd. Byddai o fudd petai cyrff llywodraethu yn nodi'r rhesymau am y penderfyniadau a wnaed wrth ymateb i sylwadau a gafwyd, yn arbennig os ymdriniwyd â mater cynhennus yn ystod yr ymgynghoriad. Mewn achosion pan fo penderfyniad yn cael ei wneud ar sail barn y mwyafrif, dylai cyrff llywodraethu fod yn ofalus iawn er mwyn sicrhau nad yw barn y mwyafrif yn gwahaniaethu yn erbyn grŵp, nodwedd neu safbwynt benodol

4.4 Anogir cyrff llywodraethu i adolygu eu polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion o bryd i'w gilydd (a dylent ystyried gwneud hynny bob amser pan gyflwynir sylwadau). Fe'u hanogir hefyd i ymgynghori â rhieni, disgyblion a grwpiau eraill am eu sylwadau. Dylai ysgolion roi digon o rybudd ynghylch ymgynghoriad sydd yn yr arfaeth am bolisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion a'i gyhoeddi ar raddfa eang er mwyn annog y nifer uchaf o ymatebion. Os gwneir newidiadau i bolisïau gwisg ysgol o ganlyniad i'r hyn ddigwyddodd yn yr ymgynghoriad, dylai ysgolion sicrhau bod trefniadau pontio yn eu lle a rhoi digon o amser ar gyfer unrhyw newidiadau sylweddol.

Cwynion

4.5 Dylid cyflwyno cwynion a phryderon am bolisiâu gwsg ysgol ac edrychiad disgyblion, gan gynnwys cwynion a phryderon am argaeledd y wisg ysgol a'r gost o'i phrynu gan gyflenwr penodol, i gorff llywodraethu'r ysgol a dylid delio â'r cwynion a'r pryderon hynny yn unol â gweithdrefn gwyno'r corff llywodraethu. Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i bob corff llywodraethu gael gweithdrefn yn ei lle er mwyn mynd i'r afael â chwynion gan rieni, disgyblion, aelodau o'r staff, llywodraethwyr, aelodau o'r gymuned leol ac eraill mewn perthynas â materion y mae gan y corff llywodraethu gyfrifoldeb statudol drosto. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu canllawiau ar gyfer cyrrff llywodraethu ysgolion:

<https://gov.wales/docs/dcells/publications/121002complaintsschoolscy.pdf>

Dylid cyhoeddi'r broses o gyflwyno cwyn ynghylch polisiâu gwsg ysgol ac edrychiad disgyblion, a hynny, er enghraifft, ar wefan yr ysgol neu mewn llythyr at rieni am bolisiâu gwsg ysgol ac edrychiad disgyblion.

Peidio â chydymffurfio â pholisiâu gwsg ysgol ac edrychiad disgyblion

4.6 Pan fo'r corff llywodraethu wedi cyflwyno polisi gwsg ysgol a/neu reolau ynghylch edrychiad, y pennaeth fydd yn gyfrifol am sicrhau y cedwir atynt yn rhan o'i gyfrifoldebau cyffredinol o redeg yr ysgol a sicrhau disgyblaeth o ddydd i ddydd.

4.7 Dylai penaethiaid benderfynu pa gamau i'w cymryd pan fydd disgyblion yn torri rheolau'r ysgol mewn perthynas â gwsg ysgol neu edrychiad. Gall penaethiaid ddisgyblu disgyblion am fynd yn groes i bolisiâu gwsg ysgol ac edrychiad disgyblion, ond, dylent geisio darganfod yn gyntaf oll fodd bynnag pam nad yw disgybl yn cydymffurfio â'r polisi. Os gwelir mai'r rheswm yw bod teuluoedd yn wynebu anawsterau ariannol, dylai ysgolion ganiatáu amser penodol i'r eitemau gofynnol gael eu prynu a chynnig gwybodaeth am y cymorth y gall yr Awdurdod Lleol neu'r ysgol ei gynnig yn hyn o beth. Dylai ysgolion sicrhau eu bod yn rhoi gwybod am gyllid grant Llywodraeth Cymru, fel cymorth i gael gwsg ysgol drwy Grant Datblygu Disgyblion-Mynediad, ynghyd â'r meini prawf cymhwysedd.

4.8 Gall fod rhesymau eraill pam nad yw disgybl yn cydymffurfio â'r polisi gwsg ysgol neu edrychiad ar wahân i drafferthion ariannol neu'r disgybl yn herio'r polisi. Er enghraifft, gallai'r disgybl fod wedi colli ei wisg ysgol, gallai'r wisg fod wedi'i dwyn, ei difrodi, neu ei baeddu'n ddamweiniol i'r graddau na ellid ei gwisgo ac mae'n bosibl na fyddai modd golchi a sychu rhai eitemau o ddillad dros nos. Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i benaethiaid anfon plant adref o dan amgylchiadau o'r fath. Gallai rhesymau eraill gynnwys y posibilrwydd nad yw'r wisg ysgol ar gael ym maint y disgybl neu fe all fod rhesymau crefyddol na chawsant mo'u nodi cyn hynny.

4.9 Gall penaethiaid ofyn i ddisgyblion fynd adref i newid eu dillad. Ni ddylai hyn gymryd mwy o amser nag sydd raid i newid y dillad a dim ond lle gallai hynny gael ei wneud yn gyflym ac yn ddiraffferth y byddai hyn yn briodol. Ni ddylai penaethiaid anfon disgybl adref am gyfnod amhenodol neu am gyfnod yn hwy nag sydd raid i newid ei ddillad neu ei edrychiad (e.e. drwy dorri ei wallt) gan y gallai hyn gael ei ystyried gyfystyr â gwaharddiad answyddogol. Wrth anfon plentyn adref, dylai

penaethiaid neu aelodau o'r staff uwch ystyried oedran y plentyn ac i ba raddau y mae'n agored i niwed. Dylent hefyd gysylltu â'r rhieni neu ofalwyr. Byddai disgwyl i'r disgybl ddychwelyd i'r ysgol yn syth ar ôl newid ei ddillad. Gallai peidio â gwneud hynny gael ei ystyried gyfystyr ag absenoldeb heb awdurdod.

Gwahardd a bod yn absennol

4.10 Dim ond pan fo'r achosion hyn yn digwydd yn barhaus ac yn herio'n agored bolisi'r ysgol ar wisg ysgol neu edrychiad a lle defnyddiwyd pob ffordd bosibl arall i ddatrys yr anghydfod ynghylch y wisg ysgol, yna gallai'r ysgol ystyried gwahardd fel yr ateb olaf.

4.11 Mae angen i gyrrff llywodraethu sicrhau nad yw absenoldeb yn digwydd am nad yw teuluoedd yn gallu darparu gwisg ysgol ar gyfer eu plant. Petai sefyllfa o'r fath yn codi, dylai gwybodaeth a chymorth priodol arall gael eu rhoi i'r teuluoedd hynny gan yr Awdurdod Lleol neu'r ysgol.

4.12 Nid yw Llywodraeth Cymru yn ystyried bod gwahardd, fel rheol, yn ymateb priodol i achosion lle na chydymffurfir â'r polisiau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion.

Adran 5: Cymorth ariannol

Grant Datblygu Disgyblion–Mynediad

5.1 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod rhai rhieni yn wynebu caledi ariannol oherwydd y gost o brynu gwisg ysgol i'w plant. Cred Llywodraeth Cymru hefyd na ddylai'r cymorth ariannol y mae rhieni yn ei dderbyn tuag at gost gwisg ysgol fod yn rhwystr rhag dysgu.

5.2 Yn 2018, disodlodd Llywodraeth Cymru y Grant Gwisg Ysgol gynt gyda chronfa newydd: Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad sy'n elfen o'r Grant Datblygu Disgyblion: <https://beta.llyw.cymru/grant-datblygu-disgyblion-mynediad>

5.3 Bydd y grant newydd yn canolbwyntio ar y pwynt mynediad i addysg a throsglwyddo i'r ysgol uwchradd. Gall dysgwyr yn y Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 7 sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, neu yn blant sy'n derbyn gofal fanteisio ar y grant. Mae gan ddisgyblion sy'n Geiswyr Lloches hawl i gael cymorth o dan y cyllid hwn os ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd.

5.4 Yn ychwanegol at wisg ysgol, gellir defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad i gael dillad ymarfer corff i'r ysgol; iwniform ar gyfer gweithgareddau ehangach y tu allan i'r diwrnod ysgol (fel chwaraeon, sgowtiaid a geidiaid; cyfarpar chwaraeon pan fo gweithgareddau cwricwlwm newydd yn cychwyn (fel dylunio a thechnoleg); a chyfarpar ar gyfer teithiau y tu allan i oriau'r ysgol (fel dillad glaw ar gyfer dysgu yn yr awyr agored).

5.5 Mae'r cynllun grant yn cael ei weinyddu gan Awdurdodau Lleol ar ran Llywodraeth Cymru. Dylai ysgolion ddweud wrth rieni y dylai ceisiadau am y grant hwn gael eu hanfon i'r awdurdod lleol.

Cymorth grant Awdurdodau Lleol

5.6 Mae adran 518 o Ddeddf Addysg 1996, a Rheoliadau'r Awdurdod Addysg Lleol (Talu Treuliau Ysgolion) 1999 a wnaed o dan yr adran honno, yn darparu pwerau disgrisiwn i Awdurdodau Lleol wneud taliadau er mwyn lleddfu caledi ariannol i ganiatáu i ddisgybl fanteisio ar unrhyw weithgaredd addysgol neu gymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd yn yr ysgol. Byddai hynny'n cynnwys cymorth ariannol i dalu am ddillad ysgol pan y'u bodlonir y dylai taliad gael ei wneud i osgoi neu leddfu caledi ariannol, ond rhaid i'r cymorth ariannol hwnnw fod yn gysylltiedig â modd y rhieni.

5.7 Mae llawer o Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn cynnig cymorth ariannol tuag at gost gwisg ysgol.

Cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol fel rhieni corfforaethol

5.8 Wrth gyflawni eu rôl fel rhieni corfforaethol, disgwylir i Awdurdodau Lleol roi blaenoriaeth i blant sy'n derbyn gofal a gweithredu fel eiriolwr ar eu rhan fel y gwna rhieni i'w plant eu hunain. Dylai Awdurdodau Lleol felly wneud trefniadau er mwyn

sicrhau y gall y plentyn neu'r person ifanc gydymffurfio â'r polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion ac nad yw o dan anfantais.

Math arall o gymorth ar gyfer teuluoedd sydd ar incwm isel

5.9 Mae rhai mathau eraill o gymorth ariannol ar gael:

- Mae'n bosibl y gall rhieni a fu'n derbyn Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm, Credyd Pensiwn neu arian un o'r budd-daliadau hyn am o leiaf 26 wythnos wneud cais am fenthyciad cyllidebu o'r gronfa gymdeithasol o dan y categori dillad ac esgidiau o'r Ganolfan Byd Gwaith. Gall hawlwr sy'n hawlio Credyd Cynhwysol ar hyn o bryd wneud cais am Flaenswm Cyllidebu
- Efallai y gall cyrff llywodraethu neu gymdeithasau rhieni ysgolion fod o gymorth. Gallai hyn fod ar ffurf cymorth ariannol o gronfa caledi, cynllun cynilo neu drwy roi dillad ail-law.

Undebau credyd

5.10 Mentrau cydweithredol ariannol yw Undebau Credyd. Maent yn canolbwyntio ar y gymuned ac yn cael eu rhedeg gan bobl leol er budd pobl leol, sy'n cynnig cynilon a benthyciadau moesegol.

5.11 Gall pawb sy'n byw neu'n gweithio o fewn ardal yr Undeb Credyd ymuno, ynghyd ag unrhyw aelod o'u teulu sy'n byw gyda hwy. Mae Undebau Credyd hefyd yn croesawu aelodau iau i gynilo â hwy. Mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati i annog pobl o bob oed i ymuno ag Undebau Credyd ac i annog ysgolion i sefydlu mannau casglu i gynilwyr ifanc a'u teuluoedd.

5.12 Mae Undebau Credyd yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys benthyciadau fforddiadwy a chyfrifon cynilo. Gallant hefyd roi cyngor ar reoli cyllideb a dyledion. Maent hefyd yn cynnig benthyciadau llai ar gyfradd fforddiadwy. Drwy berthyn i Undeb Credyd, gall rhieni gynilo ychydig yn rheolaidd tuag at gost gwisg ysgol, neu wneud cais am fenthyciad bach a fydd yn caniatáu iddynt rannu cost gwisg ysgol drwy'r flwyddyn.

Arferion da gan ysgolion

5.13 Dyma enghreifftiau o arferion da gan ysgolion mewn perthynas â chymorth ariannol tuag at wisg ysgol:

- Rhoi cyhoeddusrwydd i gymorth gwisg ysgol a chymorth arall drwy Grant Datblygu Disgyblion - Mynediad gan Lywodraeth Cymru.
- Rhoi cyhoeddusrwydd i gynlluniau grant dewisol Awdurdodau Lleol lle bo'n berthnasol.
- Cronfeydd dewisol gan ysgolion tuag at galedi.

- Hybu'r arfer o drefnu stondinau i werthu gwisg ysgol o ansawdd da yn ail-law mewn nosweithiau rhieni neu ddigwyddiadau eraill.
- Benthycu eitemau ail-law i ddisgyblion a sefydlu ystafell adnoddau mewn lleoliad nad yw'n rhy amlwg i osgoi stigma ymhlith disgyblion.
- Swmp-brynu eitemau i'w gwerthu i rieni am bris gostyngol, gan gynnig o bosibl gynllun taliadau hawdd.
- Lle nad oes angen eitem o ddillad Ymarfer Corff ond am ran o'r flwyddyn ysgol yn unig, nodi hynny yn y rhestr ar gyfer y cit fel na fydd y plentyn yn tyfu allan o'r eitem cyn y bydd ei angen ac fel y gall y rhieni gyllidebu ar ei chyfer drwy wasgaru'r gost.
- Mae Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor ar Bopeth Sir Ddinbych yn rhedeg cynllun ailddefnyddio gwisg ysgol sy'n caniatáu i rieni gael gafael ar wisgoedd ysgol fforddiadwy o ansawdd uchel yn eu cymunedau. Mae wisgoedd ysgol sy'n cael eu rhoi i'r cynllun yn cael eu casglu cyn diwedd tymor yr haf fel y gallant gael eu haildefnyddio a'u rhoi ar gael am ddim i deuluoedd mewn siop ailgylchu (mae cyfraniadau a rhoddion yn helpu i dalu am olchi'r wisgoedd ysgol).